# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024** Cymeradwywyd. | | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Diweddariad y Cydbwyllgor Corfforaethol** PENDERFYNWYD:<br>a) nodi'r diweddariad ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.<br>b) dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ariannol a chyfreithiol gweddilliol yn y drefn honno (gan gynnwys cwblhau | 1. Diweddaru'r Cabinet ar sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yng Nghymru.<br>2. Amlinellu goblygiadau'r pontio o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i rôl Cyngor Caerdydd | | 21 Maw 2024 | | 2 Mawrth 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | unrhyw drefniadau), sy'n codi fel rhan o'r cyfnod pontio (yn ôl yr angen) ac awdurdodi gwasanaethau cyfreithiol i gyflawni'r holl ddogfennau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r newyddiad a'r pontio i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.<br><br>c) nodi newyddiad y cytundebau perthnasol ar gyfer y Fargen Ddinesig o'r Corff Atebol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol newydd.<br><br>d) nodi nad Cyngor Caerdydd fydd y | fel Corff Atebol am y Fargen Ddinesig.<br><br>3. Nodi trosglwyddo gweithwyr Cyngor Caerdydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.<br><br>4. Nodi newyddiad unrhyw gytundebau perthnasol ar gyfer y Fargen Ddinesig o'r Corff Atebol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaeth | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | corff atebol o 1 Ebrill 2024.<br><br>e) Nodi y bydd adroddiad yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor llawn ynghylch terfynu'r Cytundeb Cydweithio a gweithredu unrhyw drefniadau newydd. | ol newydd. | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Ymddiriedolaethau - Trefniadau Llywodraethu**<br>PENDERFYNWYD:<br><br>1. sefydlu Pwyllgor(au) Cabinet, 'Pwyllgor Cabinet yr Ymddiriedolaethau', sy'n cynnwys 5 aelod Cabinet, gyda'r Cylchoedd Gorchwyl canlynol yn cael eu | Gwella trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag ymddiriedolaethau lle mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr corfforaethol a sicrhau bod penderfyniadau'r ymddiriedolaeth yn cael eu gwneud yn | | | | 5 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | cymeradwyo:<br><br>*'(a) Mewn perthynas ag unrhyw Ymddiriedolaeth y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol ohoni, arfer holl swyddogaethau'r Cyngor fel Ymddiriedolwr Corfforaethol, gan ystyried yr holl faterion perthnasol a chyngor proffesiynol priodol, a gweithredu bob amser er budd yr Ymddiriedolaeth.*<br>*(b) Mabwysiadu unrhyw bolisïau* | gyfreithlon ac yn briodol er budd yr ymddiriedolaeth berthnasol. | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | *a gweithdrefnau priodol i lywodraethu cyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys ond heb gyfyngiad i Bolisi a Gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau Ymddiriedolaeth.*<br>*(c) Bydd gofyn i bob Aelod o Bwyllgor y Cabinet wneud hyfforddiant perthnasol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n iawn.'*<br><br>2. Yn amodol ar gymeradwyo | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | argymhelliad 1, penodir 5 aelod Cabinet i Bwyllgor(au) Cabinet yr Ymddiriedolaethau gyda chyngor gan y Swyddog Monitro yn enwedig os bydd angen mwy nag un pwyllgor ar unrhyw adeg; a<br><br>3 Argymhellir y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol, 'Pwyllgor Ymgynghorol yr Ymddiriedolaethau', sy'n cynnwys 3 aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, gyda'r Cylch Gorchwyl canlynol: | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | *'Mewn perthynas ag unrhyw Ymddiriedolaeth y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol iddi ac unrhyw gynnig y mae gan y Cyngor wrthdaro buddiannau difrifol mewn perthynas ag ef, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau a neu gyngor cyfreithiol, i wneud argymhelliad/ion i Bwyllgor Cabinet yr Ymddiriedolaethau neu'r Cabinet ynghylch a ddylid cytuno ar y cynnig ai peidio, gydag addasiadau neu hebddynt, er budd yr Ymddiriedolaeth,* | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | *gan ystyried yr holl faterion a chyngor perthnasol.'* | | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Caerdydd Un Blaned - Adolygiad Blynyddol**<br>PENDERFYNWYD:<br><br>1) nodi'r cynnydd a wnaed ar leihau carbon dros gyfnod Strategaeth Caerdydd Un Blaned.<br><br>2) cymeradwyo dechrau'r gwaith ar "Bapur Gwyrdd" Ymateb i Newid Hinsawdd i gynnwys darlun clir o heriau, nodau a chyfleoedd buddsoddi posibl sy'n gysylltiedig â nhw. | Sicrhau bod cynnydd a momentwm ein hymateb i'r Argyfwng Hinsawdd yn cael ei gofnodi a chytuno ar gamau gweithredu i adolygu hyn yng ngoleuni profiad a gwybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn. | | 21 Maw 2024 | | 5 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2025/26** **PENDERFYNWYD**: pennu Trefniadau Derbyn i Ysgolion drafft 2025/2026 atodedig y Cyngor, fel y nodir ym Mholisi Derbyn 2025/2026. | Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau derbyn i ysgolion bob blwyddyn a chytuno arnynt ar ôl ymgynghori'n briodol. | | 21 Maw 2024 | | 5 Ebrill 2024 | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** PENDERFYNWYD:<br><br>1. awdurdodi swyddogion i fynd ati i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i: | Bodloni'r galw cynyddol am leoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ac Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth. | Mae manylion llawn yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. | 21 Maw 2024 | | 5 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | • sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle newydd ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle newydd ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2025, o fewn adeiladau presennol neu adeilad newydd.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol | | | | | | |

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol. | | | | | | |

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | • sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | | | | |

CYNGOR CAERDYDD

COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | • sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br><br>2. peidio â symud ymlaen â'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch.<br><br>3. Nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet cyn rhoi'r cynigion ar waith yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, yr ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ac | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | argymhellion i roi'r cynigion ar waith neu fel arall. | | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2024/25** ***Mae Atodiad 4 yr adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac ym mhob un o amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na*** | Cydymffurfio â'r gofyniad i gyflwyno'r Cynllun Busnes CRT i Lywodraeth Cymru a sicrhau bod amcanion gwasanaeth clir a sicrwydd ariannol ar waith ar gyfer y CRT. | Mae ymgynghori â thenantiaid wedi digwydd yn ystod y broses gosod rhent ac mae eu hadborth wedi llywio'r cynllun busnes. | 21 Maw 2024 | | 5 Ebrill 2024 | |

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ***budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.***<br><br>***Datganodd y Cynghorydd Ash Lister fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem hon, gan fod perthynas yn byw mewn llety a nodir yn yr adroddiad. Gadawodd y Cynghorydd Lister y cyfarfod ac ni fu'n rhan o'r broses benderfynu.***<br><br>**PENDERFYNWYD**: cymeradwyo Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2024-2025 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Gosod cladin ar Dŷ Nelson / Tŷ Loudon**<br>***Mae Atodiadau 3 a 4 i'r adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu*** | 1. Cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer ail- | *Housing and Communities will consult with residents and* | 21 Maw 2024 | | 5 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ***cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth yn unol â pharagraff 16 Deddf Llywodraeth Leol 1972.***<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>1. cymeradwyo'r llwybr caffael arfaethedig ar gyfer gosod cladin ar Dŷ Nelson a Thŷ Loudoun; a chymeradwyo'r meini prawf gwerthuso a nodir yn yr adroddiad, a chytuno ar ddechrau'r broses gaffael.<br><br>2. dirprwyo pob agwedd ar y broses gaffael ar gyfer y gwaith o osod | osod cladin ar Dŷ Nelson a Thŷ Loudoun, gan gynnwys y trefniadau caffael arfaethedig.<br>2. Sicrhau effeithlonrwydd thermol y blociau tra'n cynnal y lefel uchaf o ddiogelwch tân. | *local ward members as the scheme develops and communication will be in person and via letters.*<br><br>1. Cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer ail-osod cladin ar Dŷ Nelson a Thŷ Loudoun, gan gynnwys y trefniadau caffael arfaethedig. | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | cladin ar Dŷ Nelson a Thŷ Loudoun (hyd at ac yn cynnwys dyfarnu contract/au ac unrhyw faterion ategol) i'r Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau Oedolion mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Tai a Chymunedau, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, yn amodol ar sicrhau cymeradwyo cyllid grant priodol gan Lywodraeth Cymru. | | 2. Sicrhau effeithlonrwydd thermol y blociau tra'n cynnal y lefel uchaf o ddiogelwch tân. | | | | |
| CAB/17- | Rhif | **Materion Tir** | 1. Byddai | | 21 Maw | | 5 Ebrill | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| 18/ | Cofnod | ***Nid yw Atodiadau C a D yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 rhan 4 a pharagraff 21 rhan 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***<br><br>PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro) i drafod a chytuno ar benawdau'r telerau ac ymdrin â phob agwedd ar gaffael tir yn Pengam Green a gwaredu'r tir a'r adeiladau yn Fferm New House, gan gynnwys priodoli unrhyw dir sy'n | caffael tir yn Pengam Green yn caniatáu i wahanol amcanion strategol gael eu cyflwyno a'u datblygu. Yn benodol, byddai amcanion strategol ynghylch gweithgarwch economaidd ar ran o'r safle, adlinio Rover Way yn y pen draw a | 1. Bydd ymgynghoriad priodol gan aelodau lleol yn digwydd ar delerau'r trafodion ac unrhyw gynlluniau strategol dilynol ar gyfer yr eiddo a gaffaelwyd. | 2024 | | 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ofynnol at ddibenion ehangu mynwentydd, fel y nodir yn yr adroddiad hwn o fewn paramedrau'r cyngor prisio a ddarperir yn Atodiadau C a D. | gwelliannau i'r safle Sipsiwn a Theithwyr i'r de o'r ffordd bresennol yn cael eu symleiddio a'u cyflawni.<br><br>2. Byddai cael gwared ar fudd rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn tir yn Fferm New House yn arwain at dderbyn cyfalaf i'r Cyngor yn | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | | ystod 2023/24 y gellir ei ail-fuddsoddi i sicrhau ffrydiau incwm newydd i'r Cyngor, tra'n cadw tir strategol ar gyfer ehangu mynwentydd yn y dyfodol. | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Strategaeth Blaenoriaeth Bysus**<br>PENDERFYNWYD:<br><br>1. cymeradwyo'r ddogfen Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysus | 1. Cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer bysiau a nodir yn y Papur Gwyn ar gyfer Trafnidiaeth 2020. | 1. Ymgynghorir ag Aelodau Lleol fel rhan o'r Broses | 21 Maw 2024 | | 2 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | drafft, fel y nodir yn Atodiad 1.<br><br>2. cymeradwyo dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysus.<br><br>3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth i wneud mân ddiwygiadau i'r Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysiau a | 2. Gwireddu'r 'Camau Mawr' yn y Strategaeth Fysus ehangach ar gyfer Caerdydd, gyda phwyslais penodol ar gefnogi Camau Mawr 1-3 sy'n ymwneud â darparu seilwaith a blaenoriaeth bysiau. | Prosiect Trafnidiaeth a'r Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw gynllun trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bws.<br><br>2. Mae manylion ymgynghori | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | llunio rhaglen o brosiectau blaenoriaeth bysiau y gellir eu cyflawni ac ymgysylltu perthnasol â rhanddeiliaid allweddol, ac i symud ymlaen i gyflawni'r prosiectau allweddol hynny.<br><br>4. Nodir y bydd pob nodwedd sy'n gysylltiedig â phrosiect trafnidiaeth sy'n cael ei chynnwys, a/neu ei chynhyrchu o'r Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysus, yn amodol ar geisiadau cyllido llwyddiannus, ymgynghoriad | 3. Byddai Cynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysiau yn gam mawr ymlaen i'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghaerdydd. Byddai'n cyfrannu'n sylweddol at wneud bysiau yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer teithio.<br><br>4. Gwneud ansawdd | arfaethedig i'w gweld yn yr adroddiad. | | | | |

CYNGOR CAERDYDD

COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | cyhoeddus, dichonoldeb dylunio, asesiadau (gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb AEG) a Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhT). | teithiau bws a phrofiad y defnyddiwr o'r dechrau i'r diwedd yn greiddiol i brosiectau trafnidiaeth yn y dyfodol.<br><br>5. Blaenoriaethu set graidd o chwe choridor bws ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith – yn amodol ar asesiad pellach. | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | | 6. Galluogi'r Tîm Trafnidiaeth i symud ymlaen gyda datblygu prosiectau blaenoriaeth bysiau ar y llwybrau hynny ac i ffurfio rhaglen gyflenwi gysylltiedig. | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Cledrau Croesi Caerdydd Cam 1** ***Ni ddylid cyhoeddi Atodiad 1 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth a eithriwyd o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 (Gwybodaeth sy'n*** | 1. Cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Cledrau Croesi a nodir yn y Papur Gwyn ar gyfer Trafnidiaeth | Mae cynigion llawn yr ymgynghoriad wedi'u nodi yn yr adroddiad. | 21 Maw 2024 | | 2 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ***ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol gan gynnwys yr awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno) Rhan 4 ac yn bodloni'r prawf budd y cyhoedd ym mharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>1. awdurdodi lansio Tendr Cam 2 Cyfranogiad Contractwyr Cynnar (ECI) ar gyfer Cam 1A o Brosiect Cledrau Croesi.<br><br>2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i | 2020.<br><br>2. Galluogi rhagor o gyflwyniadau Achos Busnes i Lywodraeth y DU.<br><br>3. Galluogi prosesau prosiect allweddol i gael eu cyflawni gan dîm y prosiect.<br><br>4. Rhoi'r cyfle gorau i'r prosiect gyflawni'r symiau cyllido a ddyrannwyd erbyn canol | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ddyfarnu Cam 1 Cyfnod Dylunio ECI i'r cynigydd llwyddiannus gan ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso a nodir ym Mharagraff 11 yr adroddiad hwn.<br><br>3 Nodir y bydd Cam 2 yr ECI yn amodol ar gymeradwyaeth cabinet yn y dyfodol. Bydd hyn yn seiliedig ar gytundeb o bris cost targed yn dilyn proses Cam 1.<br><br>4. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr PTE (fel Uwch Berchennog Cyfrifol (UBC) a Chadeirydd y Bwrdd y Rhaglen) i symud ymlaen | 2026.<br><br>5. Cyflwyno prosiect Cam 1A cwbl weithredol erbyn canol 2028.<br><br>6. Rheoli risgiau dylunio a darparu yn rhagweithiol drwy gynllun cynhwysfawr, gan leihau aflonyddwch posibl a gorwariant.<br><br>7. Gosod y sylfeini ar gyfer cyfnodau Cledrau Croesi yn y dyfodol, gan | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | gyda'r holl broses ymgynghori ac ymgysylltu sy'n gysylltiedig â Phrosiect Cledrau Croesi Cam 1. | gynnwys cysylltu Canol Dinas Caerdydd â dwyrain y ddinas a chysylltu cynllun Cam 1A arfaethedig i'r gorllewin drwy 'The Ramp' yn yr Orsaf Ganolog. | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Rhan A Dogfen Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd wedi'i Diweddaru (2024)** PENDERFYNWYD: cymeradwyo Rhan A Dogfen Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd wedi'i ddiweddaru (2024) fel y polisi rheoli presennol ar gyfer y swyddogaeth hon. | Cymeradwyo Rhan A Dogfen Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd wedi'i ddiweddaru (2024) fel y polisi rheoli presennol ar gyfer y swyddogaeth hon. | | 21 Maw 2024 | | 2 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Adnewyddu cytundeb trwydded 3 blynedd Microsoft** PENDERFYNWYD: 1) Ei gymeradwyo mewn egwyddor i'r Cyngor gaffael ei adnewyddiad meddalwedd Microsoft trwy naill ai gytundeb fframwaith Cynhyrchion Technoleg a Gwasanaethau Cysylltiedig Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS) (gan ddefnyddio agregiad Microsoft Gwanwyn 2024 - NFC166), neu (ii) Gytundeb Fframwaith Cynnyrch a | 1. Gan fod amcangyfrif gwerth y contract yn fwy na £5,000,000, i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol, a Rheolau Sefydlog a Rheolau Gweithdrefn Contractau, mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen. 2. Oherwydd amseroedd rhyddhau Memorand | | 21 Maw 2024 | | 2 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | Gwasanaethau TG GCLIC (Gwasanaeth Cyflawni Llywodraeth Cymru) / GCC (Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol).<br><br>2) dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a'r Swyddog Monitro i benderfynu pa fframwaith i'w ddefnyddio ac ymdrin yn gyffredinol â phob agwedd ar y broses gaffael a materion cysylltiedig hyd at | wm Cyd-ddealltwriaeth DTA24 Microsoft, nid yw'n bosibl aros nes y gwyddys bod prisio yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet - felly mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddirprwyo'r awdurdod i gwblhau'r gweithgareddau caffael angenrheidiol, gan ganiatáu i'r Cyngor | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ac yn cynnwys dyfarnu'r contract. | ddefnyddio'r opsiwn caffael mwyaf priodol. | | | | | |
| CAB/17-18/ | Rhif Cofnod | **Datganiad ar Bolisïau Tâl 2024/25**<br><br>*Datganodd Paul Orders, Sarah McGill, Chris Lee, Debbie Marles a Tracey Thomas fuddiant personol ac ariannol yn yr eitem hon. Gadawodd Paul Orders, Sarah McGill, Chris Lee y cyfarfod. Arhosodd Debbie Marles a Tracey Thomas yn y cyfarfod tan y pwynt penderfynu er mwyn ateb unrhyw gwestiynau technegol.*<br><br>PENDERFYNWYD: argymhell i'r Cyngor | Er mwyn ymateb i'r gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 drwy gytuno ar y Datganiad Polisi Tâl, y bydd ei gyhoeddi hefyd yn caniatáu bod yn agored ac yn atebol o ran sut mae'r Cyngor yn gwobrwyo ei weithwyr. | | 21 Maw 2024<br><br>28 Maw 2024 | | 2 Ebrill 2024 | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | 1. I gadarnhau bod y penderfyniad i gytuno ar y Datganiad Polisi Tâl hwn yn gytundeb i weithredu'r codiadau cyflog costau byw a bennir gan y corff negodi perthnasol sy’n weithredol o 1 Ebrill 2024, fel y rhoddwyd cyfrif amdano yn y Gyllideb a bennwyd ac y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2024.<br><br>2. I bennu bod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol sy'n | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | deillio o'r cytundebau cyflog cenedlaethol a benderfynir ar ôl y dyddiad hwn na ellir eu bodloni o fewn Cyllideb Refeniw y Cyngor yn cael eu cyfeirio at y Cyngor i'w hystyried a'u penderfynu.<br><br>3. cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl (2023/24) atodedig yn Atodiad 1. | | | | | | |

| | |
|---|---|
| **Paratowyd gan swyddfa'r Cabinet:** | **Dydd Gwener, 22 Mawrth 2024** |
| **Cyflwynwyd i'r Prif Weithredwr ar gyfer Llofnod** | **Dydd Gwener, 22 Mawrth 2024** |

Cymeradwywyd ar gyfer Cyhoeddi:: *Paul Orders* Prif Weithredwr Dyddi ad: Dydd Gwener, 22 Mawrth 2024

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Cofnod | | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

| **Rhif y Penderfyniad** | **Rhif y Cofnod** | **Penderfyniad a Wnaethpwyd** | **Rheswm** | **Ymgynghoriad a Gynhaliwyd** | Dyddiadau | | | **Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Penderfyniad a Wnaethpwyd** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn** | |
| | Rhif Cofnod | | | | | | | |